


# Canllaw Cynghorol
# DIGWYDDIADAU BYCHAIN

Canllaw ymarferol i ofynion iechyd a diogelwch a chyngor ar arfer da ar gyfer trefnwyr digwyddiadau

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

| CYNNWYS | | | TUDALEN |
| --- | --- | --- | --- |
| 1. | **Rhagymadrodd** | | 3 |
| | 1.1. | Cyfrifoldeb am y digwyddiad | 5 |
| | 1.2. | Yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a’r cyflogwyr | 6 |
| 2. | **Iechyd a Diogelwch** | | 7 |
| | 2.1. | Ystyriaethau cyfreithiol cyffredinol | 7 |
| | 2.2. | Asesiad risg | 8 |
| | 2.3. | Lleoliad/safle | 8 |
| | 2.4. | Proffil y dorf | 10 |
| | 2.5. | Rhwystrau diogelwch | 10 |
| | 2.6. | Hysbysiadau gwybodaeth ac arwyddion | 10 |
| | 2.7. | Adeileddau dros dro | 11 |
| | 2.8. | Diogelwch Tân | 12 |
| | 2.9. | Gosodiadau a goleuadau trydan | 12 |
| | 2.10 | Diogelwch nwy | 14 |
| | 2.11 | Rheoli cymorth cyntaf | 15 |
| | 2.12 | Stiwardiaid a diogelwch | 15 |
| | 2.13 | Cyfathrebu | 17 |
| | 2.14 | Cyfleusterau lles | 17 |
| | 2.15 | Arlwyo, marchnata, atyniadau ac effeithiau arbennig | 18 |
| | 2.16 | Gwersylla | 19 |
| | 2.17 | Cyflenwad Dŵr | 19 |
| 3. | **Rheoli Sŵn** | | 20 |
| 4. | **Deunydd Darllen Cymeradwy** | | 21 |
| 5. | **Ffynonellau am Ragor o Wybodaeth ac Arweiniad** | | 24 |
| 6. | **Cydnabyddiaeth** | | 25 |
| 7. | **Enghraifft Sylfaenol – Rhestr Wirio Cyn ac yn Ystod y Digwyddiad** | | 26 |
| 8. | **Patrymlun Asesiad Risg Gwag** | | 28 |
| 9. | **Manylion Cyswllt Awdurdodau Gorfodi Gorllewin Cymru** | | 29 |

# 1. RHAGYMADRODD

Mae'r canllaw hwn yn seiliedig ar egwyddorion rheoli iechyd a diogelwch ac asesiad risg. Maent yn cydnabod y bydd pob digwyddiad yn wahanol a bydd gofyn am gyfluniad penodol o elfennau, rheoli, gwasanaethau a darpariaethau. Cynghorir pob trefnydd digwyddiad i ddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y canllaw hwn fel sail ar gyfer cynllunio'r gofynion ar gyfer eu digwyddiad.

Yn achos cyflogwyr neu bobl hunangyflogedig, mae cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch a deddfwriaeth Rhagofalon Tân yn ofyn cyfreithiol. Nid yw'n bosibl i'r canllaw hwn fod yn rhagnodol ar gyfer digwyddiadau unigol gan fod yn rhaid i'r rhain gael eu pennu gan asesiad risg.

Ym mhob achos bydd mesurau rhagofal ac ataliol (neu reoli) priodol yn ddibynnol ar ystod o ffactorau megis:

- maint, lleoliad a natur y digwyddiad,
- pa un ai a yw'r digwyddiad yn cael ei gynnal dan do neu yn yr awyr agored,
- Proffil a deinameg y gynulleidfa/ dorf,
- pa un ai a yw contractwyr yn gyfrifol am rai tasgau,
- presenoldeb masnachwyr, y defnydd o effeithiau arbennig,
- mynediad i'r gwasanaethau brys ac ati.

Cyfrifoldeb y sawl sydd â'r ddyletswydd i gydymffurfio â'r gyfraith (cyfeirir atynt yn aml fel y 'deiliaid dyletswydd') yw hi i bennu a gweithredu rhagofalon addas a digonol.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn nodi rhai o'r peryglon tebygol y bydd angen eu hystyried ac yn cynnig cyngor ar sut i fynd i'r afael â hwy (mae'n bosibl y bydd rhai ohonynt neu bob un yn berthnasol i'ch digwyddiad). Y mae'r adran **'materion y dylai'r trefnwyr eu hystyried'** yn cynnig cyngor ar weithredoedd awgrymedig i'ch helpu gyda mesurau rheoli peryglon ac i gydymffurfio â'r gyfraith. Mae'n debygol y bydd nifer o'r gweithredoedd a restrir yn cael eu hystyried fel rhagofalon gofynnol, gan ddibynnu ar gasgliadau a chanlyniadau eich asesiad risg. Mae cymhwyso dull iechyd a diogelwch i nodweddion unrhyw ddigwyddiad yn galluogi'r 'deiliad dyletswydd' i benderfynu pa elfennau sy'n berthnasol ac i asesu'r lefel a'r math o ddarpariaeth sydd eu hangen ar gyfer y digwyddiad hwnnw.

Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y canllaw hwn wedi'i hysgrifennu'n bennaf er mwyn darparu cyngor ar gymhwyso Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (DIDG) a Rheoliadau cysylltiol mewn mathau gwahanol o ddigwyddiadau bychain a chanolig eu maint.

Ni roddir sylw i ddigwyddiadau mwy o faint megis cyngherddau roc mewn stadiwm chwaraeon yn y canllaw hwn, a dylid edrych ar ganllawiau manwl a mwy penodol a gyfeirir atynt yn y deunydd darllen cymeradwy.

Bydd nifer o ddigwyddiadau yn cynnwys gweithgareddau a ddaw o fewn y diffiniad "gweithgaredd trwyddedadwy" i ddibenion Deddf Trwyddedu 2003. Gyda rhai eithriadau mae "gweithgaredd trwyddedadwy" yn cynnwys:

- Gwerthiant adwerthol o alcohol,
- Darparu adloniant (e.e. cerddoriaeth a dawnsio, cerddoriaeth fyw, drama, ffilm, digwyddiad chwaraeon dan do),

- Lluniaeth yn hwyr yn y nos (cyflenwi bwyd a diod boeth i'r cyhoedd eu bwyta a'u hyfed ar neu oddi ar yr eiddo (gan gynnwys unedau symudol) rhwng 11yh a 5yb),
- Cyfuniad o'r uchod.

Fodd bynnag, gellir defnyddio elfennau o'r canllaw hwn fel patrymlun ar gyfer trefnu digwyddiadau cyhoeddus sydd ddim yn "weithgaredd trwyddedadwy".

Nid yw'n anarferol i fathau penodol o ddigwyddiad sy'n cynnwys "gweithgaredd trwyddedadwy" i fod ag angen Trwydded Safle dros gyfnod y digwyddiad dan Ddeddf Trwyddedu 2003.Fodd bynnag, yn achos digwyddiadau llai (llai na 500 o bobl) am gyfnod byr (llai na 96 awr), mae'n bosibl na fydd angen Trwydded Safle ar y trefnwyr ond efallai bydd gofyn iddynt roi Rhybudd o Ddigwyddiad Dros Dro i'r Awdurdod Trwyddedu (awgrymir y dylech gysylltu ag adran drwyddedu'r awdurdod lleol lle y cynhelir y digwyddiad neu'u gwefan.  Fel arall, gallwch gysylltu â'r tîm iechyd a diogelwch lleol yn yr adran 'Manylion Cyswllt Awdurdodau Gorfodi Gorllewin Cymru' ac efallai y gallan nhw eich helpu gyda'ch ymholiad).

Yn ymarferol, does dim gwahaniaeth rhwng gweithredu deddfau iechyd a diogelwch mewn digwyddiad trwyddedig a digwyddiad didrwydded. Mae'r gwahaniaeth yn yr ystyriaeth y gall yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân, Iechyd yr Amgylchedd (Rheoli Sŵn), Rheolydd Iechyd a Diogelwch, Safonau Masnach neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol (Amddiffyn Plant), sef yr "awdurdodau cyfrifol", osod amodau mwy manwl mewn perthynas â'r pedwar amcan trwyddedu sydd wedyn yn eu tro'n dod yn ofynion ar y Drwydded Safle. Y pedwar amcan trwyddedu yw:

- Atal trosedd ac anrhefn.
- Diogelu'r cyhoedd.
- Atal niwsans cyhoeddus.
- Amddiffyn plant rhag niwed.

Pa un ai a ydych yn bwriadu cynnal diwrnod o hwyl, ffair, gŵyl, parti stryd gwisg ffansi, gig fechan, cyngerdd, carnifal, sioe leol neu ddawns sgubor fe ddylai fod cyngor defnyddiol wedi'i gynnwys i chi yn y canllaw hwn.

Hyd yn oed gyda digwyddiadau bychan dan do, mae'n werth cofio eich bod chi a'ch cyd-drefnwyr yn gyfreithiol gyfrifol am iechyd a diogelwch eich staff, gwirfoddolwyr, cynorthwywyr a'r cyhoedd. Byddai hyn yn cynnwys digwyddiadau megis ffair sborion, cyflwyniadau ac arddangosfeydd a gynhelir mewn neuaddau pentref, ysgol neu eglwys a digwyddiadau codi arian a drefnir gan grwpiau megis Cymdeithas Rhieni ac Athrawon ysgolion, yr eglwys, grwpiau yn y gymuned a rhai gwirfoddol ac elusennol ac ati.

Nod y canllaw hwn yw ceisio helpu'r rheini sy'n trefnu digwyddiadau fel bod y digwyddiad yn mynd rhagddo'n ddiogel. Trefnydd y digwyddiad, boed yn unigolyn, yn grŵp elusennol neu gymunedol, sy'n bennaf gyfrifol, ac o dan orfodaeth gyfreithiol i warchod iechyd, diogelwch a lles pawb sy'n gweithio yn y digwyddiad neu sy'n ei fynychu.


Mae cynllunio a rheoli da yn hanfodol i lwyddiant unrhyw ddigwyddiad. Rydym yn argymell y dylai pob trefnydd ddefnyddio penawdau'r adrannau yn y canllaw hwn fel fframwaith neu restr wirio ar gyfer cynllunio'r gofynion ar gyfer eu digwyddiad penodol hwy ac er mwyn amlygu'r prif agweddau sydd i'w hystyried yn eu hasesiad risg.

Nid yw'r canllaw hwn yn disodli'r angen i drefnwyr digwyddiadau i geisio cyngor o ffynonellau eraill ac yn enwedig yr angen i ymgynghori â swyddogion perthnasol yr Awdurdod Lleol a'r gwasanaethau brys. Bydd y swyddogion yn barod i gynnig cyngor a chymorth gan gynnwys rhoi gwybod a oes angen Trwydded Safle ai peidio. Gellir dod o hyd i ganllaw manylach yng nghyhoeddiad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, HSG195, ***"The event safety guide: a guide to health, safety and welfare at music and similar events"*** (gweler Deunydd Darllen Cymeradwy). Noder: mae HSG195 i'w adolygu dros y ddwy flynedd nesaf.

## 1.1 Cyfrifoldeb am y digwyddiad a chynllunio

Wrth gynllunio unrhyw ddigwyddiad (chwaraeon neu arall) dylid enwi trefnydd cyn gynted â phosibl (gweler 2.1- ystyriaethau cyfreithiol cyffredinol).

Ar gyfer digwyddiadau mwy, mae arfer da yn nodi y dylid llunio strwythur rheoli manwl sy'n nodi'n ffurfiol pwy sy'n gyfrifol am beth ynghyd â chynllun diogelwch ar gyfer y digwyddiad.




**Cynllunio, Gwneud, Gwirio, Gweithredu - Model ar gyfer Rheoli Digwyddiad Diogel**

(Addaswyd o ddiagram sy'n dangos Cylchred PDCA gan Karn G. Bulsuk http://en.wikipedia.org/ wiki/File:PDCA Cycle.svg Trwyddedir ail-ddefnyddio a dosbarthu'r ddelwedd hon dan Drwydded Di-borth y *Creative Commons Attribution 3.0* http://creativecommons.org/licenses/by/3.0/ )

**Cynllunio ar gyfer Diogelwch**

Nod cynllunio effeithiol yw atal trwy adnabod, diddymu a rheoli peryglon a risgiau. Bydd yr amser y dylech eu neilltuo ar gyfer y gwaith yn dibynnu ar faint, math a hyd y digwyddiad. Gellir ystyried materion cynllunio digwyddiad fesul rhan - gweler y diagram llif isod).

## CAMAU CYNLLUNIO DIGWYDDIAD AR GYFER SAFLE NEU LEOLIAD ENGHREIFFTIOL

**Paratoi / y cyfnod cyn y digwyddiad**

Gall gynnwys cynllunio cynllun y lleoliad, dewis gweithwyr cymwys, dewis contractwyr ac isgontractwyr, adeiladu llwyfannau/ heolydd dros dro/ pebyll mawrion/ ffensys ac ati.

↓

**‘Llwyth i Mewn’**

Gall gynnwys cynllunio ar gyfer dosbarthu a gosod offer a gwasanaethau mewn modd diogel i’w defnyddio yn y digwyddiad e.e. offer llwyfan i’w ddefnyddio gan y perfformwyr, goleuo, systemau sain (PA) ac ati.

↓

**Y Digwyddiad ei Hun** (e.e. y cyfnod y bydd y ffair/ sioe/ cyngerdd/ gig ar agor i’r cyhoedd).

Gall gynnwys gynllunio strategaethau rheoli torfeydd effeithiol, strategaethau rheoli trafnidiaeth a threfniadau lles. Cynllunio strategaethau er mwyn delio â than, cymorth cyntaf, a digwyddiad mawr ac ati.

↓

**‘Llwyth allan’ a ‘Chlirio’**

Rhaid cynllunio ar gyfer symud offer, cerbydau a gwasanaethau’n ddiogel oddi ar y safle, a bydd yn cynnwys cynllunio i reoli peryglon unwaith i’r digwyddiad ddod i ben a phan fydd yr isadeiledd yn cael ei ddatgymalu. Ceir peryglon wrth gasglu sbwriel a gwaredu gwastraff dŵr a bydd angen cynllunio a rheoli’r rheini hefyd.

## 1.2. Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a'r Cyflogwr

Argymhellir yn gryf fod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn cael ei sicrhau cyn i unrhyw ddigwyddiad gael ei gynnal. Gall diffyg yswiriant o'r fath olygu na fydd yr awdurdodau cyhoeddus na'r gwasanaethau brys yn cefnogi'r digwyddiad.

Os ydych yn cyflogi pobl yn uniongyrchol yna fe'ch atgoffwn fod yswiriant atebolrwydd cyflogwr yn ofyniad cyfreithiol.

# 2. IECHYD A DIOGELWCH

## 2.1 Ystyriaethau cyfreithiol cyffredinol

Bydd y rhan fwyaf o ddigwyddiadau sy'n cael eu trafod yn y cyhoeddiad hwn yn cynnwys gweithgaredd gwaith (h.y. bydd o leiaf un unigolyn yn cael ei gyflogi/ chyflogi, er enghraifft yn ystod y cyfnod paratoi, y digwyddiad ei hun neu'r clirio wedi'r digwyddiad) ac felly'n destun Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 (DIDG) a deddfwriaeth atodol.

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn gosod dyletswyddau mewn perthynas ag iechyd a diogelwch pob un sy'n ymwneud â rheoli'r digwyddiad. Mae'r berthynas gyfreithiol rhwng hyrwyddwyr, trefnwyr y digwyddiad, contractwyr, arddangoswyr/ masnachwyr, perfformwyr, perchnogion tir/ eiddo ac ati yn medru bod yn agwedd gymhleth iawn ar y gyfraith felly mae'n bwysig sefydlu cyfrifoldebau iechyd a diogelwch eglur. Mae hi felly'n briodol i adnabod pawb sydd â chyfrifoldebau iechyd a diogelwch sy'n ymwneud â'r digwyddiad. Yn y rhan fwyaf o achosion, trefnydd y digwyddiad sydd â'r prif gyfrifoldeb. Mae profiad yn awgrymu mai doeth fyddai cytuno'n ysgrifenedig ar gyfrifoldebau cytundebol.

Fe'i hystyrir i fod yn arfer da ar ran grŵp neu sefydliad sydd â gweithwyr gwirfoddol i ddarparu'r un lefel o amddiffyniad iechyd a diogelwch ag y byddent yn ei roi mewn perthynas gweithiwr/cyflogwr, pa un ai a oes dyletswydd gyfreithiol arnynt ai peidio. (Gweler canllaw'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) ar weithwyr elusen a gwirfoddol yn yr adran Deunydd Darllen Cymeradwy).

Mae'r tri **gofyniad** isod, ynghyd â'r **gofynion** ar gyfer asesu risg, yn perthyn yn agos iawn at ei gilydd a gellir eu hystyried gyda'i gilydd:

- Mae Adran 2 (1) o'r DIDG yn **mynnu** bod cyflogwyr yn sicrhau iechyd, diogelwch a lles eu gweithwyr cyn belled ag y mae'n rhesymol o ymarferol;

- Mae Adran 2 (2)(a) o'r DIDG yn **mynnu** bod cyflogwyr yn darparu ac yn cynnal a chadw peiriannau a systemau gweithio sydd, cyn belled ag y mae'n rhesymol o ymarferol, yn ddiogel a heb beryglon i iechyd;

- Mae Adran 3 o'r DIDG yn mynnu bod cyflogwyr yn cynnal eu gweithgaredd yn y fath fodd sy'n sicrhau, cyn belled ag y mae'n rhesymol o ymarferol, nad yw pobl nad ydynt yn weithwyr cyflogedig iddynt (e.e. gwestai, aelodau o'r cyhoedd a chontractwyr) yn agored i beryglon iechyd a'u diogelwch. (Mae'r Adran hon hefyd yn gosod dyletswydd debyg ar yr hunangyflogedig tuag atynt hwy eu hunain ac eraill).

## 2.2 Gofynion asesu risg

Mae Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 yn **mynnu** bod cyflogwyr yn cynnal asesiad risg addas a digonol o'r:

- peryglon i iechyd a diogelwch y mae eu gweithwyr yn agored iddynt wrth eu gwaith; a'r
- peryglon i iechyd a diogelwch pobl eraill yn sgìl neu'n gysylltiedig â gwaith y cyflogwr, er mwyn adnabod y mesurau sydd eu hangen er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

Gosodir yr un ddyletswydd ar bobl hunangyflogedig mewn perthynas â'u hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac eraill.

Dylid cynnal asesiad risg ar gyfer pob cyfnod o'r digwyddiad gan gynnwys y paratoi'r safle/ lleoliad, y digwyddiad a dymchwel a chlirio'r safle/lleoliad. (Gweler y diagram llif ar y dudalen flaenorol).

Dangosir yr elfennau gofynnol ar gyfer asesiad risg mewn print **bras** isod:

- **Canfod y peryglon** sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad h.y. unrhyw beth a all achosi niwed. Gellir gwneud hyn drwy ymchwilio mewn cyhoeddiadau penodol, ymweld â'r safle neu'r lleoliad a chael manylion am beryglon penodol gan gontractwyr, busnesau arlwyo a chyflenwyr effeithiau arbennig ac ati;
- **Penderfynu pwy allai gael eu niweidio a sut;**
- **Asesu lefel y risg;**
- **Canfod rhagofalon priodol a digonol;** a
- **Chofnodi eich darganfyddiadau.** (Os oes gennych lai na phum gweithiwr nid oes angen i chi roi dim ar bapur, er ei bod yn ddefnyddiol i gadw cofnod ysgrifenedig o'r hyn yr ydych wedi'i wneud). (Os ydych yn gwneud cais am drwydded safle dan Ddeddf Trwyddedu 2003, dylid rhestru'r rhagofalon dan adran 'diogelu'r cyhoedd' o'r amcanion trwyddedu).

Bydd yr asesiad risg cyffredinol yn help i benderfynu pa reolaethau neu ragofalon sydd angen i chi eu rhoi yn eu lle er mwyn rheoli'r digwyddiad yn ddiogel. Dylai hyn gynnwys cynllunio, cyfathrebu ac ymarfer eich gweithdrefn argyfwng.

(Ceir patrymlun asesiad risg gwag ar dudalen olaf y canllaw hwn. Am ragor o wybodaeth gweler yr adran Rheoli Risg ar wefan HSE sy'n cynnwys asesiadau risg enghreifftiol ar www.hse.gov.uk/risk/index.htm. Un o'r enghreifftiau a welir ar y wefan yw clwb nos, sy'n rhoi darlun defnyddiol o sut y dylid dogfennu asesiad risg ar gyfer lleoliad cerddoriaeth).

## 2.3 Y Lleoliad/ Safle

Rhaid bod digon o le i'r cyhoedd i symud o gwmpas y stondinau, reidiau, y perfformiad/ llwyfan, arena a'r mannau arddangos ac ati ym mhob digwyddiad a rhaid cael llwybrau di-rwystr i'r allanfeydd. Mae'n hynod o bwysig i sicrhau nad yw stondinau/ nwyddau yn rhwystro llwybrau i'r allanfeydd a drysau mewn digwyddiadau dan do.

Dylai safleoedd allanol gan gynnwys y maes parcio, llwybrau troed ac unrhyw lwyfan/ adeiledd fod yn addas i'w defnyddio mewn tywydd gwael a dylid cynnwys hyn yn rhan o'r trefniadau wrth gefn.

Rhaid canfod a rheoli peryglon amlwg, ar y safle ac yn yr ardaloedd cyfagos, megis cemegau neu beiriannau wedi'u storio, tyllau heb ffens o'u hamgylch, cwymp serth rhwng lefelau tir gwahanol,

pyllau/ dŵr ac adeiladau peryglus y dylid cadw'r cyhoedd oddi wrthynt drwy godi rhwystrau/ ffens. Gall gwifrau trydan uwchben fod yn berygl, yn enwedig yn ystod y gwaith adeiladu. Dylid canfod cyfyngiadau uchder a'u nodi wrth fynedfa'r safle. Pan fo ceblau uwchben yn peri problem dylech gysylltu â'r cwmni dosbarthu pŵer.

Hefyd bydd angen ystyried unrhyw wasanaethau neu bibellau sydd dan y ddaear.

Dylid ystyried unrhyw berygl o lithro, baglu, cwympo neu beryglon tebyg a rhoi sylw iddynt fel rhan o'r asesiad risg, ac yn yr un modd pa mor addas yw'r tir ar gyfer llwyfannau, peiriannau trymion ac adeileddau sydd wedi'u clymu i lawr.

Dylid ystyried peryglon trafnidiaeth/ materion diogelwch cerbydau yn y gweithle.

Sicrhau bod y safle/ lleoliad wedi'u oleuo'n addas, gan gynnwys goleuadau dros dro digonol mewn argyfwng (os yw'r digwyddiad yn parhau wedi iddi nosi).

Wrth ddewis safle/ lleoliad, dylid ystyried y gymuned gyfagos mewn perthynas â niwsans sŵn (gweler adran 3).

Ystyriwch drefniadau addas er mwyn galluogi pobl o wahanol alluoedd i fynychu/ gael mynediad i'r digwyddiad a defnyddio'r cyfleusterau a ddarperir.

### Materion y dylai'r trefnwyr eu hystyried:

- **Paratoi cynllun bras o'r safle, (i raddfa os yn bosibl) sy'n dangos lleoliad** yr holl weithgareddau/ atyniadau, y llwybrau o gwmpas ac allanfeydd.
- Ceisio cymeradwyaeth yn fuan gan yr awdurdod priffyrdd lleol os bydd angen cau ffyrdd neu angen gwneud trefniadau arbennig ar gyfer rheoli traffig ar y briffordd.
- Sicrhau bod digon o allanfeydd ar gael fel bod modd symud pawb yn drefnus oddi ar y safle, a chytuno â'r gwasanaethau brys ar y nifer o bobl sydd i fod yno.
- Sicrhau fod mynedfeydd ac allanfeydd wedi'u nodi ar gyfer mynedfa i gerbydau'r gwasanaeth brys. Dylai'r gwasanaeth brys gytuno arnynt. Dylai'r allanfeydd a'r llwybrau brys fod yn rhydd o unrhyw rwystrau ar bob adeg a dylid eu nodi'n glir ar arwyddion addas, sydd wedi'u goleuo os oes angen.
- Sicrhau fod y gwaith adeiladu a symud cerbydau a gaiff eu gwneud yn ystod y cyfnod paratoi wedi'u goruchwylio a/neu wedi'u diogelu gan rwystrau addas.
- Trefnu mynedfeydd/ allanfeydd ar wahân i gerbydau a cherddwyr a threfnu nad yw'r ciwiau i fynd i mewn i'r digwyddiad yn rhwystro mynediad y cerbydau nag unrhyw gyffyrdd cyfagos.
- Lleoli unrhyw faes parcio yn ddigon pell oddi wrth y mannau ar y safle lle bydd pobl yn cerdded. Rhoi arwyddion clir i'r meysydd parcio a pheidiwch â chaniatáu parcio ceir yn unrhyw le arall.
- Cynllunio a darparu meysydd parcio sydd â stiwardiaid yno er mwyn rheoli'r risg o beryglon i gerddwyr megis ceir yn bacio. Dylai'r trefnwyr hefyd ystyried topograffeg y meysydd parcio. Trefnwch fod y ceir yn wynebu am i lawr neu ar draws unrhyw lethr gan ei bod yn anodd iawn gyrru i fyny llethr os yw'r tir yn feddal neu os yw hi'n dod i'r glaw yn ystod y digwyddiad a bod nifer o geir yn ceisio gadael y maes parcio i'r un cyfeiriad.
- Ystyried gwahardd symud cerbydau yn yr ardaloedd cyhoeddus yn ystod y digwyddiad, oni bai at ddibenion brys.
- Sicrhau fod y mynediad yn cael ei stiwardio'n dda (yn enwedig pan fo cyfyngiad ar y nifer o bobl a all fynychu'r digwyddiad) a bod dull manwl cywir o gyfrif ar waith er mwyn osgoi gorlenwi ar y safle ac yn yr allanfeydd.

## 2.4 Proffil y Dorf

Gall y risg sy’n gysylltiedig ag ambell i berygl gynyddu neu leihau gan ddibynnu ar broffiliau torf gwahanol. (Gweler Rheoli Torfeydd yn Ddiogel HSG 154).

**Materion y dylai’r trefnwyr eu hystyried:**

- Sicrhau fod yr asesiad risg yn ystyried anghenion penodol plant ifanc, plant yn eu harddegau, yr anabl a’r henoed.

- Gwneud “addasiadau rhesymol” ar gyfer pobl anabl, megis darparu cymorth ychwanegol mewn digwyddiad a/neu wneud addasiadau rhesymol i nodweddion ffisegol unrhyw adeilad a ddefnyddir ar gyfer digwyddiadau er mwyn goresgyn rhwystrau ffisegol sy’n atal mynediad.

- Ystyried a yw polisi a deunydd hyrwyddo eich digwyddiad yn adlewyrchu agwedd gynhwysol (e.e. a fyddech yn medru darparu deunydd mewn print bras/ ieithoedd gwahanol ac ati).

## 2.5 Rhwystrau Diogelwch

Gwneir sawl defnydd gwahanol o’r rhwystrau. Gallant ddarparu diogelwch corfforol neu gellir eu defnyddio i atal y gynulleidfa rhag mynd at yr offer, arddangosfeydd, peiriannau sy’n symud ac ati. Gellir eu defnyddio hefyd i liniaru ac atal pwysau’r gynulleidfa rhag cynyddu e.e. rhwystr sydd wedi’i adeiladu’n briodol o flaen y llwyfan.

Bydd rhwystrau bob amser dan bwysau a dylid eu cynllunio felly i wrthsefyll llwythi ongl sgwâr a chyfochrog, yn unol â’r pwysau tebygol. Dylai unigolyn cymwys wirio er mwyn sicrhau fod y rhwystr, wedi ei godi, yn cyrraedd y meini prawf cynllunio.

(Am ragor o wybodaeth benodol ar rwystrau gweler y Canllaw Diogelwch Digwyddiad (HSG195) a chyhoeddiad Sefydliad y Peirianwyr Saernïol *Temporary Demountable Structures - Guidance on procurement, design and use*. (Y Trydydd Argraffiad) (2007)).

## 2.6 Hysbysiadau gwybodaeth ac arwyddion

Mae darparu arwyddion diogelwch a hysbysiadau gwybodaeth (sy’n cydymffurfio â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Arwyddion a Signalau Diogelwch) 1996) yn bwysig o ran cyfathrebu llwyddiannus mewn digwyddiad. (Gweler deunydd darllen cymeradwy). Mae logos a gaiff eu hadnabod yn rhyngwladol yn ddefnyddiol i unigolion sydd ddim yn medru siarad/ darllen Saesneg.

(Noder: Os yw’r arwyddion ar y briffordd rhaid iddynt gydymffurfio â Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2002).

**Materion y dylai’r trefnwyr eu hystyried:**

- Ystyried darparu arwyddion/ hysbysiadau amlieithog.
- Darparu arwyddion/ hysbysiadau digonol o faint addas o gwmpas y lleoliad, er enghraifft eiddo coll, plant sydd ar goll, arwyddion diogelwch (fel bo’n briodol).

## 2.7 Adeileddau Dros Dro

**Y Llwyfan/ Tyrrau**

**Goleuo**

Os yw llwyfan, tyrrau goleuo/ sain ac ati'n cael eu codi yna rhaid i unigolyn cymwys wneud y gwaith. Dylid sicrhau cadarnhad ysgrifenedig oddi wrthynt yn nodi bod yr adeileddau'n ddiogel dan unrhyw amgylchiadau y gellir eu rhagweld.

Dylid lleoli'r llwyfan/ adeileddau mewn modd fel nad ydynt yn rhwystro'r ffordd at unrhyw fynediad neu ffordd allan o'r safle.

Fel arfer nid oes darpariaeth rhag syrthio oddi ar ymyl y llwyfan sy'n wynebu'r gynulleidfa ond dylid marcio'r ymyl yn glir. Gan ddefnyddio tâp gwyn, goleuog neu adlewyrchol, dylid marcio pob rhwystr ffisegol arall, ymylon heb eu diogelu, ymylon ger bylchau ac ymylon grisiau (mae canllawiau'n awgrymu y dylai marciau o'r fath fod o leiaf 25mm o led er mwyn bod yn weladwy, ond byddai 50mm yn well).

Ni ddylai unrhyw beth sy'n achosi perygl o faglu na pheryglon corfforol arall fod ar unrhyw lwyfan nac adeiledd (h.y. ymylon miniog/pwyntiau/darnau ategol sy'n ymwthio allan).

(Am ragor o wybodaeth gweler cyhoeddiad Sefydliad y Peirianwyr Saernïol *Temporary Demountable Structures. Guidance on procurement, design and use.* (Y Trydydd Argraffiad) (2007)).

**Pebyll mawrion/ Pebyll**

Os ydych yn bwriadu codi pebyll mawrion a phebyll yna dylid ceisio cyngor y Gwasanaeth Tân ynghylch agweddau diogelwch gan gynnwys eu lleoliad, eu gwneuthuriad, eu gallu i wrthsefyll fflamau a'r ddarpariaeth o allanfeydd, goleuadau mewn argyfwng ac ati. (Gweler Deunydd Darllen Cymeradwy**).**

Dylid gwneud trefniadau er mwyn atal unigolion heb awdurdod rhag cael mynediad neu ymyrryd â'r offer ac ati pan fydd y digwyddiad ar agor i'r cyhoedd.

Dylai manyleb pwysau gwynt ar gyfer pob pabell fawr fod gennych i'w defnyddio wrth gynllunio ar gyfer argyfyngau posibl.

Dylai'r asesiad risg nodi'r pellter diogel rhwng y pebyll mawrion, carafanau, cerbydau ac adeileddau eraill.

Dylid cynnal llwybrau mynediad ar gyfer y gwasanaethau brys y tu ôl i'r pebyll mawrion, y pebyll ac adeileddau eraill.

(Am ragor o wybodaeth gweler cyhoeddiad y Performance Textiles Association — MUTAmarq *"Best Practice Guide for the Safe Use and Operation of Marquees and Temporary Structures* ar *www.performancetextiles.org.uk/public/downloads/mutamarq.pdf ).*

(Gweler hefyd y Rheoliadau Gweithio ar Uchder 2005 ac adran Syrthio o Uchder gwefan HSE ar www.hse.gov.uk/falls /regulations.htm)

## 2.8 Diogelwch Tân

Newidiwyd y ddeddf diogelwch tân yn Hydref 2006 a chyflwynwyd y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.

Datblygwyd cyfres o ganllawiau ar ddiogelwch tân er mwyn helpu i egluro'r hyn sy'n rhaid i chi ei wneud er mwyn cydymffurfio â deddf diogelwch tân, eich helpu i gynnal asesiad risgiau tân ac i adnabod rhagofalon tân cyffredinol sy'n angenrheidiol. Bydd y canllaw/ canllawiau a fydd yn fwyaf defnyddiol i chi yn dibynnu ar faint a natur eich lleoliad, ewch i'r wefan ar www.communities.gov.uk/fire/firesafety/firesafetylaw/aboutguides

Am ganllaw pellach gweler Deunydd Darllen Cymeradwy

**Materion y dylai'r trefnwyr eu hystyried:**

**Cynnal Asesiad Risgiau Tân sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.**
Cysylltwch â'ch Swyddog Atal Tân lleol am gyngor. (Rhoddir manylion cyswllt ar gyfer y Gwasanaeth Tân yng Ngorllewin Cymru yn yr adran **'Rhagor o Wybodaeth ac Arweiniad'**).

- Cytunwch ar fodd o seinio'r larwm neu gyfathrebu'r rhybudd mewn achos o dân a gwiriwch fod y system yn gweithio'n effeithiol.
- Darparwch ddeunydd diffodd tân addas o gwmpas y safle/ lleoliad (e.e. diffoddwyr tân, blancedi tân).
- Sicrhewch fod y stiwardiaid yn gwybod ble mae'r offer a sut i'w defnyddio. Dylid dweud wrthynt am beidio â cheisio ymladd tanau mawr.
- Dylid galw'r Frigâd Dân ar unwaith i unrhyw dân, os ydych yn amau bod tân neu fod un go iawn yno.
- Darparu pellter gwahanu priodol rhwng pebyll mawrion/ pebyll/ stondinau unigol er mwyn atal y tân rhag lledaenu.
- Ystyriwch ddefnyddio generadur disel yn hytrach na phetrol gan fod disel yn llai fflamadwy.
- Gweler Paragraff 6 (uchod) ar gynllun mynedfeydd ac allanfeydd y safle/ lleoliad.

## 2.9 Gosodiadau a golau trydan

Gall trydan achosi marwolaeth neu anaf difrifol i berfformwyr, gweithwyr neu aelodau o'r cyhoedd. Gall nam, difrod, camddefnydd neu gynnal a chadw gwael olygu bod teclyn neu ran o fewnosodiad yn anniogel, gan beri risg o sioc drydanol neu dân. Mewn sawl achos gall y cyflenwad o drydan fod yn gyflenwad dros dro, ond dydy hyn ddim yn golygu ei bod yn dderbyniol iddo fod o safon is neu o ansawdd sy'n israddol o'u gymharu â mewnosodiad parhaol.

- Dylai'r holl fewnosodiad, gan gynnwys y gwifrio, yr offer switsio ac unrhyw eneradur fod wedi'i osod mewn modd diogel gan unigolyn cymwys (h.y. trydanwr cymwys sydd wedi'i hyfforddi).
- Rhaid i'r holl fewnosodiadau ac offer trydanol gydymffurfio â gofynion cyffredinol Rheoliadau Trydan yn y Gweithle 1989.
- Dylai'r mewnosodiad trydanol (dros dro neu barhaol) gael ei archwilio/ brofi gan unigolyn cymwys yn ôl y gweithdrefnau a osodir gan y Safonau Prydeinig perthnasol.

**Materion y dylai'r trefnwyr eu hystyried:**

- Gwarchod y cyflenwad drwy osod dyfais gollyngiad daearu addas neu Ddyfais Cerrynt Gweddilliol sydd ag uchafswm o 30mA o ran graddfa tripio cerrynt ac amddiffyniad addas rhag gorlwytho.
- Pan fo'n bosibl, lleoli'r brif dderbynfa trydan ac/neu'r clostir o amgylch y generadur, mewn man sy'n hygyrch ar gyfer gwaith arferol neu argyfwng, ond wedi'i leoli ar wahân i ardaloedd cyhoeddus y lleoliad. Gosod arwyddion rhybuddio o amgylch y dderbynfa neu'r clostir. Dylid gwarchod unrhyw eneradur ag/ neu offer trydanol, gan gynnwys offer switsio, yn ddigonol er mwyn atal mynediad diawdurdod a/neu ymyrraeth.
- Ystyriwch leoliad y generaduron a'r gallu i fynd atynt at ddibenion ail-lenwi â thanwydd. Ystyriwch hefyd osod rheol ar y safle mai dim ond un cynhwysydd llawn tanwydd a gaiff ei storio ger y generadur a dylid cadw'r gweddill mewn man storio diogel, sydd wedi'i ffensio'n ac arwyddion priodol arno mewn lleoliad addas. Dylid storio tanwydd mewn modd diogel mewn cynhwysyddion addas. Os yw'r lleoliad yn agos at ardal breswyl ystyriwch y ffactor o niwsans sŵn. Os yw'n ormodol, gall defnyddio generaduron sydd wedi'u tawelu fod yn ddull addas o ostwng lefel y sŵn.
- Gwarchod yr holl offer trydanol, a allai fod yn agored i'r tywydd, trwy ddefnyddio gorchudd addas a digonol, amgaead neu gysgodfa.
- Sicrhau bod y ceblau a ddefnyddir yn rhai addas ar gyfer y llwyth. Ni ddylai fod unrhyw ddifrod i'r ceblau a dylid sicrhau mai'r cysylltwyr cywir a ddefnyddir, sy'n addas ar gyfer eu defnyddio y tu allan (pan fo'n angenrheidiol).
- Sefydlogwch geblau neu darparwch gynhaliaeth drwy wifren gatena uwchben, neu claddwch hwy o dan y ddaear. Dylai ceblau sy'n rhedeg ar y wyneb/ llawr gael eu hamddiffyn rhag ymylon miniog neu rhag cael eu gwasgu gan lwyth trwm a dylid eu gosod fel nad ydynt yn achosi perygl o faglu nac unrhyw berygl arall (e.e. trwy eu gorchuddio â rampiau neu fatiau rwber).
- Pan fo hynny'n bosibl, dylid darparu digon o socedau sefydlog, er mwyn osgoi defnyddio socedau sy'n cymryd sawl plwg. Gall y socedau fod un ai'n rhai parhaol neu ar fyrddau dosbarthu dros dro sydd wedi'u mowntio'n briodol. Yn ddelfrydol, er mwyn osgoi'r angen am wifrau hir sy'n llusgo, dylid lleoli'r offer o fewn 2m i soced sefydlog.
- Sicrhau fod unrhyw unigolyn sy'n dod ag offer trydanol symudol i'r safle yn medru dangos bod yr offer trydanol wedi'i gadw'n gywir a bod archwiliadau a/neu brofion rheolaidd wedi'u cynnal ar yr offer gan unigolyn cymwys (fel bo'n briodol).
- Dylid ceisio cyngor arbenigol yr HSE mewn perthynas â chanllawiau ar ddiogelwch trydanol offer ffair.
- Darparu lefelau addas o olau artiffisial ar gyfer pob rhan o safle awyr agored lle mae prinder o olau dydd. Dylid ystyried goleuadau ar gyfer y safle cymorth cyntaf, yr ardal wybodaeth/ pebyll mawr, mynediad i gerddwyr i'r meysydd parcio, y meysydd parcio, y toiledau a'r llwybrau at y priffyrdd cyhoeddus.
- Darparu goleuadau argyfwng yn unol â'r asesiad risg a'r asesiad risgiau tân.

## 2.10 Diogelwch nwy

Mae gwefan Diogelwch Nwy'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch - www.hse.gov.uk/gas/index.htm <http://www.hse.gov.uk/gas/index.htm> yn egluro'r gofynion cyfreithiol mewn perthynas â diogelwch nwy.

Ymysg y taflenni sydd ar gael ar wefan Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) sy'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol y mae:

- INDG238(rev3) *'Gas appliances - Get them checked, keep them safe'*
- *Gas Safety in Catering and Hospitality* - *HSE Catering Information Sheet No. 23.*

Erbyn hyn, mae'r Gofrestr Nwy CORGI ar gyfer peirianwyr/ gosodwyr nwy wedi'i ddisodli gan y Gofrestr Diogelwch Nwy newydd (gweler www.gassaferegister.co.uk <http://www.gassaferegister.co.uk> am ragor o wybodaeth).

Y defnydd o Nwy Petrolewm Hylifol - LPG (tanwydd propan neu fwtan)

Ceir gwybodaeth am y defnydd o LPG yn nhaflen wybodaeth yr HSE (CHIS5) sydd ar gael yn rhad ac am ddim ar eu gwefan (gweler deunydd darllen cymeradwy a chanllaw UKLPG).

**Materion y dylai'r trefnwyr eu hystyried:**

- Defnyddio'r weithdrefn asesu risg i ystyried y peryglon tân, ffrwydrad a pheryglon carbon monocsid sy'n gysylltiedig â nwy (prif gyflenwad neu LPG). Er enghraifft - o ran LPG, asesu'r risg i offer coginio neu wresogi sy'n defnyddio propan neu fwtan, pibau, pibellau a silindrau (yn enwedig os ydynt y tu mewn i bebyll neu adeiledd tebyg).

Ystyried cysylltu â'r Gwasanaeth Tân am gyngor yn ymwneud ag atal tân.
Sicrhau bod arlwywyr allanol neu fasnachwyr/gyflenwyr/arddangoswyr eraill sy'n mynychu'r digwyddiad yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i gydymffurfio â'r gyfraith mewn perthynas â diogelwch nwy a'u bod yn ymwybodol o'r canllaw uchod ac unrhyw reolau diogelwch sydd ar y safle/ lleoliad.

Gofyn am brawf fod y peirianwyr nwy a ddefnyddir mewn cysylltiad â'ch digwyddiad ar y gofrestr Diogelwch Nwy. Mae peirianwyr nwy sydd wedi'u cofrestru'n iawn yn cario cardiau adnabod sydd â rhif trwyddedu unigryw arnynt. Mae angen gwahanol sgiliau ar gyfer gwahanol fathau o waith nwy, felly mae'n bwysig i fwrw golwg ar gefn y cerdyn adnabod er mwyn gwneud yn siŵr fod y peirianwyr yn gymwys i gwblhau'r math o waith y mae gofyn iddynt eu gwneud.

## 2.11 Rheoli Cymorth Cyntaf

Nodir y gofynion cymorth cyntaf ar gyfer pobl sydd 'yn y gwaith' yn y Rheoliadau Cymorth Cyntaf yn y Gwaith 1981. Y tu hwnt i hyn, mae'n rhaid i lefel y ddarpariaeth cymorth cyntaf mewn unrhyw ddigwyddiad fod yn addas ar gyfer nifer y bobl a ddisgwylir i fynychu ac ar gyfer y math o ddigwyddiad/ adloniant a ddarperir a dylid pennu hyn trwy asesiad risg. Gellir dod o hyd i gyngor manylach yn *"The event safety guide: A guide to Health, Safety and Welfare at Music and Similar Events" HSG195* **(gweler Deunydd Darllen Cymeradwy).** Dylech gysylltu gyda'ch Ymddiriedolaeth Ambiwlans lleol am gyngor a darpariaeth gwasanaeth posibl ganddynt.

**Materion y dylai'r trefnwyr eu hystyried:**

- Sicrhau bod gwasanaeth cymorth cyntaf sylfaenol ar gael bob amser. Mewn digwyddiadau llai dylai unigolyn sy'n gymwys i roi cymorth cyntaf fod yn bresennol a dylai fod yno ardal addas ar gyfer triniaeth cymorth cyntaf (dylai cyflenwad dŵr fod ar gael). Ni ddylai llai na 2 swyddog cymorth cyntaf fod mewn unrhyw ddigwyddiad (os dilynir canllawiau HSG195).
- Gellir gofyn i gymdeithas wirfoddol cymorth cyntaf i ddarparu Safle Cymorth Cyntaf gyda phobl cymwys i roi cymorth cyntaf yno.
- Dylid sicrhau fod arwyddion clir yn nodi'r safle cymorth cyntaf a mynediad rhwydd i'r gynulleidfa. Os bydd angen ambiwlans, dylid darparu lle parcio'n agos at y safle cymorth cyntaf a ffordd glir allan o'r safle.
- Sicrhau fod pawb sy'n cynorthwyo yn y digwyddiad yn ymwybodol o leoliad y safle cymorth cyntaf a phan fo'n briodol, eu bod yn adnabod y swyddog cymorth cyntaf.
- Darparu mynediad at ffôn neu ddarparu ffonau symudol.
- Rhaid cadw cofnod o bawb sy'n ceisio triniaeth. Mae'n bosibl y bydd angen y cofnod i helpu gyda dyletswydd statudol y trefnwyr i gadw cofnod o ddamweiniau ac anafiadau i weithwyr ac aelodau o'r gynulleidfa yn unol â Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau , Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 1995 (RIDDOR).
- Mae'n bosibl y bydd darparu cymorth cyntaf yn cael ei nodi fel amod trwydded yn y Drwydded Safle os yw'ch digwyddiad wedi derbyn trwydded.

## 2.12 Stiwardiaid

Rhaid darparu nifer priodol o stiwardiaid a goruchwylwyr ar gyfer diogelu a rheoli'r safle a'r cyhoedd sy'n bresennol. Dylid dod i gytundeb gyda'r Awdurdod Trwyddedu/ Heddlu ynghylch y niferoedd a'r lefel o hyfforddiant ar gyfer digwyddiadau trwyddedig.

**Materion y dylai'r trefnwyr eu hystyried:**

- Sicrhau fod y nifer o stiwardiaid sydd eu hangen yn cael ei gyfrifo gan ystyried pob tasg unigol sydd i'w gwneud (h.y. rheoli'r dyrfa, staffio'r mynedfeydd ac allanfeydd, rheoli mynediad i atyniadau/ gweithgareddau, cylchwylio yn y mannau cyhoeddus, diogelu mannau gwaharddedig, diogelu peryglon, dyletswyddau parcio ceir ac ati).
- Darparu stiwardiaid ychwanegol, os yw'r digwyddiad yn parhau am sawl awr, er mwyn galluogi eraill i gael egwyl bwyd ac ati.
- Ystyried a oes rhaid i stiwardiaid gael trwydded gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (dylid caniatáu arian ar gyfer hyn yn eich cyllideb). (Gweler Deunydd Darllen Cymeradwy).
- Sicrhau fod y stiwardiaid yn iach, egnïol ac yn 18 oed neu'n hŷn.
- Sicrhau fod y stiwardiaid wedi'u hyfforddi'n iawn a'u bod yn gymwys i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.
- Rhoi datganiad ysgrifenedig i'r stiwardiaid sy'n nodi eu dyletswyddau, a phan fo'n briodol, rhestr wirio a chynllun o brif nodweddion y safle.
- Rhoi cyfarwyddyd terfynol i'r stiwardiaid am eu dyletswyddau ar ddiwrnod y digwyddiad, yn enwedig ynglŷn â chysylltu â goruchwylwyr ac eraill mewn argyfwng. Sicrhau eu bod yn hawdd adnabod y stiwardiaid h.y. yn gwisgo siacedi neu dabard amlwg neu liw arbennig.

- Sicrhau fod y stiwardiaid yn gyfarwydd â chynllun y safle ac yn gallu cynorthwyo'r cyhoedd drwy gynnig gwybodaeth am y cyfleusterau sydd ar gael, gan gofio yn arbennig y bobl hynny sydd ag anableddau.
- Sicrhau fod stiwardiaid yn ymwybodol o leoliad y mynedfeydd a'r allanfeydd a gaiff eu defnyddio ar y diwrnod, y trefniadau cymorth cyntaf ac offer ymladd tân.
- Darparu tortsh i'r stiwardiaid pan fydd y digwyddiad yn debygol o barhau wedi iddi dywyllu a phrofi'r rhain ac unrhyw offer arall (e.e. radio) a roddir iddynt cyn y digwyddiad.
- Sicrhau fod y stiwardiaid yn ymwybodol o'u dyletswyddau penodol mewn argyfwng, eu bod yn eu deall ac wedi'u hymarfer a'u bod yn ymwybodol o'r trefniadau ar gyfer symud y cyhoedd o'r safle, gan gynnwys y defnydd o negeseuon cod.

**Diogelwch**

Rhaid i staff diogelwch mewn digwyddiadau gael eu cofrestru gydag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA). Am gyngor ar ddiogelwch mewn digwyddiadau ewch i: www.the-sia.org.uk. Rhaid i drefnwyr ystyried unrhyw fesurau diogelwch arbennig sy'n angenrheidiol gan gynnwys dros nos. Gallai'r rhain godi oherwydd amgylchiadau megis presenoldeb enwogion neu symiau mawr o arian yn y digwyddiad. Rhaid i bob aelod o'r staff diogelwch wisgo eu bathodynnau SIA trwy gydol yr amser.

Diffinnir diogelwch fel a ganlyn:

- Gwarchod rhag mynediad heb awdurdod, meddiannaeth neu anrhefn.
- Gwarchod eiddo rhag dinistr a pherygl.
- Gwarchod unigolion rhag ymosodiad.

**Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB)**

Mae'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) yn ymddwyn fel siop-un-stop ar gyfer mudiadau drwy wirio cofnodion yr heddlu ac, mewn achosion perthnasol, gwybodaeth a gedwir gan yr Adran Iechyd a'r Adran Addysg a Sgiliau. Mae dwy lefel o wiriad CRB ar gael ar hyn o bryd; datgeliad safonol a datgeliad manylach.

Rhan o rôl y Swyddfa Cofnodion Troseddol yw lleihau'r perygl o gam-drin drwy sicrhau nad yw pobl anaddas yn medru gweithio gyda phlant ac oedolion bregus. Os byddwch chi neu'ch staff yn dod i gysylltiad uniongyrchol â phlant ac oedolion bregus yn eich digwyddiad, rydym yn argymell eich bod yn cwblhau ffurflen gais am ddatgeliad.

Am ragor o wybodaeth yn ymwneud â'r Swyddfa Cofnodion Troseddol neu i gwblhau ffurflen gais, ewch i: www.crb.gov.uk.

## 2.13 Cyfathrebu

**Materion y dylai'r trefnwyr eu hystyried:**

- Sicrhau bod gennych drefniadau wrth gefn digonol, sydd wedi'u cyfleu i'r holl stiwardiaid a phersonél eraill, a'u bod wedi'u hysgrifennu lle bod angen.
- Darparu cyswllt radio personol rhwng y swyddog diogelwch ac uwch stiwardiaid ac unrhyw bobl eraill sy'n gyfrifol am weithredu'r trefniadau wrth gefn.
- Os defnyddir ffonau symudol, ystyried cryfder y rhwydwaith/mannau heb signal, y potensial i orlwytho'r rhwydwaith ac ati.
- Ystyried darparu system cyfarch cyhoeddus (PA) ar gyfer cyhoeddiadau a chyfarwyddiadau i'r staff a'r cyhoedd. Gallai uchelseinydd cludadwy fod yn ddigonol ar gyfer digwyddiadau llai (neu i'w gael wrth gefn).
- Sicrhau fod pob batri wedi'u gwefru'n llawn a bod y stiwardiaid wedi'u hyfforddi ar sut i ddefnyddio'r offer cyfathrebu a'u bod yn gwybod ble y maent.
- Sicrhau fod y system cyfarch cyhoeddus wedi'i phrofi'n iawn cyn y digwyddiad. Dylai fod ganddi gyflenwad pŵer wrth gefn i ganiatáu iddi gael ei defnyddio'n iawn mewn argyfwng. Dylai bod modd ei chlywed yn glir ym mhob rhan o'r lleoliad.
- Ystyried lefelau'r sŵn cefndirol wrth bennu dulliau o gyfathrebu ac os oes angen, defnyddio clustffonau sy'n amddiffyn y clustiau.
- Ystyried sefydlu ystafell reoli ar y safle sydd wedi'i staffio'n barhaol yn ystod y digwyddiad a ffôn yno er mwyn:
  - Monitro'r digwyddiad gan roi rhybudd buan o unrhyw broblemau
  - Rheoli unrhyw ddigwyddiad
  - Ymddwyn fel canolfan ar gyfer unrhyw system gyfathrebu

## 2.14 <u>Cyfleusterau Lles</u>

### Materion y dylai'r trefnwyr eu hystyried:

Nodir y gofynion o ran darparu cyfleusterau lles (gan gynnwys toiledau) ar gyfer y rheini sydd 'yn y gwaith' yn Rheoliadau yn y Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992. Wrth reswm, y tu hwnt i hyn, mi fyddai'n briodol i ddarparu nifer a math digonol o doiledau ar gyfer y niferoedd o bobl a ddisgwylir i fynychu'r digwyddiad gan gynnwys darpariaeth ar gyfer yr anabl. Ar gyfer digwyddiadau trwyddedig, dylid cytuno ar niferoedd a lleoliad y toiledau gyda'r Awdurdod Trwyddedu. Mae'r tabl isod yn dangos canllaw cyffredinol ar gyfer digwyddiadau cerddorol. Byddai angen llai o gyfleusterau mewn digwyddiadau megis ffeiriau gwledig, partïon gardd a digwyddiadau byr eraill ond byddai angen mwy o gyfleusterau ar gyfer digwyddiadau ble mae llawer o yfed neu wersylla.

| **Ar gyfer digwyddiadau ble mae'r gatiau ar agor am 6 awr neu fwy** | | **Ar gyfer digwyddiadau ble mae'r gatiau ar agor am lai na 6 awr** | |
|---|---|---|---|
| Merched | Dynion | Merched | Dynion |
| 1 toiled i bob 100 o ferched | 1 toiled i bob 500 o ddynion, ac 1 wrinal i bob 150 o ddynion | 1 toiled i bob 150 o ferched | 1 toiled i bob 600 o ddynion, ac 1 wrinal i bob 175 o ddynion |

Am ragor o fanylion ar ddarpariaethau cyfleusterau glanweithdra gweler BS 6465: Rhan 1 2006

- Yn ddelfrydol defnyddiwch doiledau sydd wedi'u cysylltu i'r prif gyflenwad ond mae'n bosibl y bydd angen darparu unedau dros dro. Os defnyddir unedau sy'n annibynnol o'r prif gyflenwad, rhaid trefnu i waredu'r gwastraff mewn modd diogel a hylan.

- Ystyriwch y lleoliad, mynediad, adeiladwaith, math o gyfleusterau dros dro, goleuo ac arwyddion.
- Darparu cyfleusterau i olchi dwylo (dim llai nag i bob 10 toiled) gyda dŵr cynnes, sebon a chyfleusterau sychu dwylo. Dylid darparu cadachau dwylo antiseptig neu sebon gwrthfacterol pan nad oes dŵr cynnes ar gael.
- Cynnal a chadw, trwsio a gwasanaethu'r toiledau'n rheolaidd trwy gydol y digwyddiad er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel, yn lân ac yn hylan.
- Sicrhau bod lloriau, rampiau a grisiau'r unedau'n sefydlog ac wedi'u gwneud o ddefnydd gwrthlithro.
- Darparu lleoliad ble gall pobl wneud ymholiadau ynglŷn â phlant sydd ar goll, eiddo coll ac am wybodaeth am y digwyddiad – yr Ystafell Reoli o bosibl.
- Darparu cyflenwad o ddŵr yfed o fewn cyrraedd hwylus i'r gynulleidfa a phob cyfleuster arlwyo.
- Darparu nifer digonol o finiau sbwriel o gwmpas y safle mewn lleoliadau lle bydd eu hangen fwyaf
- Gwneud trefniadau ar gyfer gwagio'r biniau'n rheolaidd, ac i gael gwared â'r gwastraff neu'i ailgylchu ar ddiwedd y digwyddiad.

## 2.15 <u>Arlwyo, marchnata, atyniadau, ac effeithiau arbennig megis tân gwyllt</u>

**Materion y dylai'r trefnwyr eu hystyried:**

- Gofynnwch i'r gweithredwr o flaen llaw am wybodaeth ynglŷn â'r peryglon penodol sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd/ effaith arbennig a gofynnwch iddynt am gopïau o'u hasesiad risg a'u gwybodaeth diogelwch eu hunain. Cysylltwch â'r unigolion uchod ynglŷn â materion iechyd a diogelwch a threfnu cyfathrebu a chydweithrediad effeithiol gyda'r nod o sicrhau fod y digwyddiad yn mynd rhagddo'n ddiogel. (Gellir gwneud defnydd effeithiol o nifer o'r egwyddorion a ddefnyddir i ddethol, archwilio cefndir a rheoli contractwyr cyfrifol, dibynadwy ac ufudd yma). Corfforwch y wybodaeth a gewch i mewn i'ch asesiad risg cyffredinol ar gyfer y digwyddiad. Os na ellir darparu'r wybodaeth hon, ystyriwch beidio â defnyddio'u gwasanaeth.
- Gwirio unrhyw dystysgrifau atebolrwydd cyhoeddus a chynnyrch ac adroddiadau diogelwch ar gyfer offer. Dylai fod adroddiadau archwilio perthnasol i gyd-fynd gydag unrhyw offer nwy, trydan, neu offer godi a ddaw i'r safle a bod yr archwiliadau/profion perthnasol wedi'u cynnal arnynt. Os na ellir darparu'r wybodaeth hon, ystyriwch beidio â defnyddio'u gwasanaeth (neu eu hatal rhag defnyddio unrhyw offer perthnasol lle nad oes modd cyflwyno adroddiad diogelwch ar eu cyfer).
- Rhoi cyfarwyddyd i'r gweithredwyr ynglŷn â materion diogelwch ar y safle.
- Gosod stondinau a difyrrwch ac ati oddi wrth lwybrau mynediad ac mewn ardaloedd llai prysur o'r safle/lleoliad. Bydd gan rai o'r unedau gynnyrch hynod o fflamadwy megis nwy petrolewm hylifedig (LPG) a bydd gofyn cymryd gofal arbennig wrth eu lleoli.
- Ystyried faint o le sydd yna i gerdded o gwmpas a threfniadau ciwio posibl, a sicrhau nad ydynt yn rhwystro llwybrau.
- Ystyried y cyflenwadau pŵer, os bydd eu hangen, fel rhan o'r cyflenwad trydan cyffredinol ar gyfer y digwyddiad (gweler Adran 12 uchod ar fewnosodiadau trydanol a goleuadau).

- Codi unrhyw stondinau neu standiau ac ati yn gywir gan sicrhau eu bod yn bodloni unrhyw ofynion o ran cywirdeb strwythurol (gweler Adran 10 uchod ar adeileddau).
- Ystyried y canllawiau penodol a gyhoeddwyd gan yr HSE, mewn perthynas ag atyniadau, reidiau ffair, dyfeisiau difyrrwch ac ar laserau, tân gwyllt ac ati **(gweler Deunydd Darllen Cymeradwy).**
- Ystyried unrhyw ganllawiau a chyngor ar bob agwedd o hylendid bwyd y digwyddiad gan Adran Diogelwch Bwyd, Iechyd yr Amgylchedd y cyngor lleol. (Bydd y manylion cyswllt ar gael ar wefannau'r cynghorau perthnasol).
- Bod yn ymwybodol y gall Swyddogion y Cyngor ofyn am gynnal archwiliad o'r gweithgareddau ategol a ddarperir yn y digwyddiad ac efallai bydd gofyn i chi, yn y cyfnod cynllunio, ddarparu rhestr o arlwywyr/ gweithredwyr fydd yn y digwyddiad.

## 2.16 Gwersylla

Dylid darparu unrhyw ardal wersylla o fewn safle ddiffiniedig y digwyddiad a'i ymgorffori wrth gynllunio'r digwyddiad.

**Materion y dylai'r trefnwyr eu hystyried:**

- Bydd angen i'r safle gwersylla fod ar dir gwastad sydd wedi'u ddraenio'n dda a'r glaswellt wedi'i dorri'n fyr fel bod llai o berygl i dân ymledu.
- Darparu digon o bellter rhwng pebyll unigol er mwyn diogelu'r safle rhag peryglon tân a baglu.
- Gwahanu'r ardaloedd gwersylla'n gorfforol oddi wrth yr ardaloedd parcio.
- Darparu gwybodaeth ynglŷn â diogelwch y safle i wersyllwyr (e.e. dim tanau agored, dim barbeciw, lleoliad y mannau tân, toiledau ac ati) mewn lleoliadau strategol.
- Darparu nifer addas o fannau tân: dylai'r rhain gynnwys, o leiaf, dull o seinio larwm, megis gong neu driongl a chyflenwad o ddŵr a bwcedi.
- Darparu nifer addas o gyfleusterau glanweithiol a basnau golchi dwylo.
- Darparu dŵr yfed.
- Darparu biniau sbwriel mewn mannau strategol.
- Darparu digon o oleuadau i alluogi pobl i symud o gwmpas yn ystod y nos, gyda mwy o oleuadau yn y mannau lle mae'r toiledau, y mannau tân ac ati.
- Darparu llwybrau i gerbydau a cherddwyr i safleoedd gwersylla a thrwyddynt er mwyn sicrhau mynediad hwylus i gerbydau brys a hefyd er mwyn darparu llwybrau diogel i'r cerddwyr sydd heb beryglon baglu megis rhaffau tynhau ac ati.
- Yn naturiol, bydd safleoedd ble y mae anifeiliaid yn arfer pori arnynt wedi'u halogi gyda baw anifeiliaid a gallai gwersyllwyr fod yn agored i beryglon iechyd megis haint E.Coli 0157. Dylid cau anifeiliaid allan o bob man (oni bai am feysydd parcio) am gyhyd ag sy'n bosibl cyn i'r cyhoedd ddod yno (o leiaf 3 wythnos). (Gweler http://www.hse.gov.uk/event-safety/venue-site-design.htm)
- Cynllunio ar gyfer atal neu leihau effaith y sŵn o'r meysydd gwersylla ar dai preswyl cyfagos.

## 2.17 Cyflenwad Dŵr

Wrth gynnal digwyddiad dros dro, boed yn un bach neu'n fawr, efallai y bydd gofyn cael cyflenwad dŵr ar gyfer paratoi bwyd, yfed, ymolchi a thoiledau ac ati. I ddarparu dŵr yfed yn

unig mewn digwyddiad bach, gallai'r trefnwyr ddarparu dŵr potel y cynhaliwyd y profion priodol arno yn ei darddle, cyn ac ar ôl ei botelu. Bydd gofyn ystyried y materion canlynol:

- Os oes angen darparu cyflenwad dŵr ar y safle, gall hwnnw ddod o gyflenwad cyhoeddus neu breifat. Os am ddefnyddio dŵr cyhoeddus, dylai'r trefnwyr ymgynghori â'r ymgymerwr dŵr lleol a'r awdurdod lleol cyn gynted ag y bo modd, er mwyn sicrhau y gwneir y cysylltiadau priodol mewn lle a gytunir, gan osod rhywbeth digonol i ddal y dŵr fel y bo'r gofyn. Dylai'r ymgymerwr dŵr a/neu'r awdurdod lleol gynnal profion ar y cyflenwad cyn iddo gael ei ddefnyddio.
- Os am ddefnyddio cyflenwad dŵr preifat, dylai trefnwyr y digwyddiad ymgynghori â'r awdurdod lleol, eto cyn gynted ag y bo modd, er mwyn sicrhau bod y cyflenwad dŵr yn addas at y diben (yn ddigonol ac yn iach), y gwneir y cysylltiadau priodol, y darperir digon o le i gadw dŵr, ac y caiff cyfarpar trin dŵr ei osod fel y bo'r gofyn. Dylai'r awdurdod lleol gynnal profion ar y dŵr, yn unol â'r safonau priodol o ran ansawdd y dŵr, cyn iddo gael ei ddefnyddio.
- Dylai trefnwyr y digwyddiad ymgynghori â'r ymgymerwr dŵr lleol a'r awdurdod lleol cyn gynted ag y bo modd i gael y cyngor gorau posibl ar sicrhau fod dŵr yfed ar gael a'i fod yn cydymffurfio'n llwyr â'r holl ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i gysylltiadau a wneir â'r prif gyflenwad dŵr, ynghyd ag ansawdd a digonedd y dŵr yfed a ddarperir yn y pen draw.

Mae Arolygiaeth Dŵr Yfed y Deyrnas Gyfunol wrthi'n llunio canllawiau ar gyfer darparu cyflenwadau dŵr mewn digwyddiadau dros dro. Dyletswydd yr awdurdodau lleol (yn gweithio gydag ymgymerwyr dŵr) fydd sicrhau y cedwir at y canllawiau hynny mewn digwyddiadau dros dro a gynhelir yn eu hardaloedd, yn unol â Rheoliadau Cyflenwadau Dwr Preifat (Cymru) 2010.

Am ragor o wybodaeth - cysylltwch â Dŵr Cymru a/neu Gyngor Sir Ceredigion (nodir eu manylion cyswllt yn rhan 5).

## 3. Rheoli Sŵn

Daw gofynion iechyd a diogelwch i rym mewn perthynas â diogelu gweithwyr rhag effeithiau sŵn uchel a allai beri niwed iddynt. Gweler y canllawiau ar gyfer y Diwydiant Adloniant ar Reoliadau Sŵn yn y Gweithle yn yr adran 'Deunydd Darllen Cymeradwy'.

Mae ystod eang o ddeddfwriaethau ar gael hefyd i gynorthwyo pobl a effeithir gan sŵn diangen. Y peth diwethaf fyddwch chi eisiau yw i'ch digwyddiad gael ei stopio neu ei atal rhag digwydd eto am ei fod yn rhy swnllyd!

### Materion y dylai'r trefnwyr eu hystyried:

- Gwnewch un unigolyn yn gyfrifol am gydymffurfiaeth sŵn yn eich digwyddiad, a sefydlu cysylltiadau gydag Adran Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor cyn gynted â phosibl cyn y digwyddiad am gyngor a dod i gytundeb ar unrhyw fonitro angenrheidiol.
- Parchwch eiddo yn yr ardal gyfagos sy'n sensitif i sŵn ac effaith posibl natur a hyd y digwyddiad.
- Yn aml, mae pobl yn fwy parod i ddioddef sŵn o ddigwyddiad os ydynt wedi cael gwybod beth sy'n digwydd, am faint o amser bydd y digwyddiad yn para ac ati.

Ystyriwch gysylltu â chymdogion cyn y digwyddiad, gan roi gwybod iddynt am eich cynlluniau a rhoi rhif cyswllt iddynt rhag ofn y bydd problem yn codi. Ond byddwch yn barod i ymateb yn gyfrifol i unrhyw gwynion a dderbynnir!

- Sicrhewch fod lefelau sŵn y gerddoriaeth yn cael eu monitro'n ddigonol er mwyn atal niwsans, yn enwedig y gydran fas a systemau cyhoeddi. Dylid cymryd gofal wrth sicrhau y cedwir rheolaeth briodol dros lefelau yn yr amrediad 63 - 125 Hz er mwyn osgoi peri unrhyw niwsans drwy rythmau amledd isel. Mae sŵn amledd isel yn ymledol dros ben, a gall deithio ymhell o'i darddle.
- Gosodwch lwyfannau fel eu bod yn wynebu oddi wrth eiddo preswyl cymaint ag sy'n bosibl a defnyddiwch nifer o seinyddion llai pwerus, wedi'u gwasgaru o gwmpas ardal y gynulleidfa, yn lle seinyddion wedi'u pentyrru. Mae cyfeiriad sŵn yn bwysig – dylid gosod y seinyddion fel nad ydynt yn anelu at ardaloedd preswyl.
- Ystyriwch y modd y gellir delio â systemau sain diawdurdod ar y safle (h.y. offer a ddygwyd gan y rhai sy'n mynychu'r digwyddiad). Gall hyn gynnwys rhoi cyngor ar docynnau, archwilio wrth y fynedfa a chynghori stiwardiaid. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle bydd gwersylla dros nos.
- Os yw'n bosibl, mynnwch gyngor gan Beirianwyr Acwstig ar sut i leihau unrhyw niwsans sŵn dichonadwy.
- Dan Reoliadau Tân Gwyllt 2004, mae'n drosedd i unrhyw unigolyn ddefnyddio tân gwyllt 'i oedolion' rhwng 11 pm a 7 am – ac eithrio nosweithiau tân gwyllt a ganiateir. [Yr eithriadau hynny yw: 5 Tachwedd – hanner nos / Diwali – 1am / Nos Calan – 1am / - Blwyddyn Newydd y Tsieineaid – 1am.]

**Trwydded PRS**

Sefydliad aelodaeth dielw o gyfansoddwyr, ysgrifenwyr caneuon, awduron a chyhoeddwyr cerddoriaeth yw'r Performing Rights Society (PRS).

Swyddogaeth y PRS yw casglu breindaliadau ar ran ei aelodau gan ddefnyddwyr cerddoriaeth yn y DU. Rhaid i unrhyw un sy'n defnyddio neu'n bwriadu perfformio cerddoriaeth (byw, DJ, teledu, radio, ac ati) yn gyhoeddus ac mewn lleoliadau gael trwydded cerddoriaeth y PRS.

Cyfrifoldeb y trefnydd yw hi i sicrhau trwydded PRS. Mae sicrhau trwydded PRS yn rhoi hawl cyffredinol fel nad oes rhaid i ddeliad y drwydded ofyn am hawl unigol ar gyfer pob darn o gerddoriaeth a ddefnyddir. Am wybodaeth bellach a ffurflen gais ewch i www.prs.co.uk/musiclicence neu ffoniwch 0800 068 4828.

## 4. DEUNYDD DARLLEN CYMERADWY

**Mae holl gyhoeddiadau HSE ar gael drwy Lyfrau HSE, PO Box 1999, Sudbury, Suffolk, C010 2WA, Rhif ffôn. 01787 881165**

1. *The Event Safety Guide: A guide to health, safety and welfare at music and similar events* HSG195 (1999) Llyfrau HSE ISBN 7176 2453 6.

2. *Fairgrounds and amusement parks: guidance on safe practice. Practical guidance on the management of health and safety for those involved in the fairgrounds industry* HSG 175 Llyfrau HSE ISBN 0 7176 1174 4.

3. *Managing Crowds Safely* HSG 154 Llyfrau HSE ISBN 0 7176 1180 9.

4. *Radiation Safety of lasers used in display purposes* HSG 95 Llyfrau HSE ISBN 0 7176 0691 0.

5. *Working together on firework displays A guide to safety for display organisers and operators* HSG 123 Llyfrau HSE ISBN 0 7176 0835 2.

6. *Smoke and vapour effects used in entertainment* ETIS 3 Llyfrau HSE.

7. *Electrical safety at places of entertainment - for smaller venues HSE's guidance note GS50*

8. *Electrical safety and you*. INDG 231. HSE, Llyfrau HSE. ISBN: 0 7176 1207 4. http:// www.hse.gov.uk/pubns/indg231.pdf.

9. Canllaw ar Reoliadau Trydan yn y Gweithle 1989 - *Memorandum of guidance on the Electricity at Work Regulations 1989* llyfryn yr HSE HSR25.

10. *Electrical safety for entertainers* Llyfryn yr HSE INDG247.

11. BS 7671: 2008 *Requirements for electrical installations* (fe'u gelwir hefyd yn *IEE Wiring Regulations*, 17eg Argraff). Dyma'r safon a ddefnyddir amlaf yn y DU ar gyfer gosodiadau trydanol sefydlog.

12. BS 7909: 1998 *Code of Practice for temporary distribution systems for ac electrical supplies for entertainment lighting, technical services, and related purposes*.

13. BS 7430: 1991 *Code of Practice for earthing*.

14. Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. (2004). *Maintaining portable and transportable electrical equipment*. HSG 107. Llyfrau HSE. ISBN: 0717628051.

15. *The safe use of gas cylinders (INDG 308) and small scale use of LPG cylinders* (nodiadau canllaw HSE - CHIS 5).

16. Uklpg (Mai 2000).*The Use of LPG in Mobile Catering Vehicles and Similar Commercial Vehicles. Code of Practice 24 Part 3.* (Ceir manylion cyswllt ar gyfer uklpg yn yr adran Ffynonellau am Ragor o Wybodaeth ac Arweiniad).

17. uklpg (Mawrth 1999). *The Use of LPG for Catering and Outdoor Functions. Code of Practice 24 Part 4*.

18. *Gas safety in catering and hospitality. HSE Catering Information Sheet No 23* (adolygiad 1). Llyfrau HSE: http://www.hse.gov.uk/pubns/cais23.pdf.

19. *The safe use and operation of play inflatables including bouncy castles* (nodyn canllaw HSE IT IS 7).

20. *Charity and voluntary workers. A guide to health and safety at work*, HSE **ISBN** 0717661857.

21. *Five Steps to Risk Assessment*. **INDG** 163, HSE, Llyfrau HSE: ISBN: 0 7176 6189 X. http:// www.hse.gov.uk/pubns/indg163.pdf.

22. *A Guide to the Reporting of Injuries, Diseases and Dangerous Occurrences Regulations 1995* .HSE, L73 3ydd Argraffiad. ISBN: 9780717662906.

23. *The Work at Height Regulations 2005* (INDG 401(ADOLYGAID1)) Llyfrau HSE. ISBN: 9780717662319. http://www.hse.gov.uk/pubns/indg401.pdf.

24. *COSHH: A brief guide to the regulations.* INDG 136, Llyfrau HSE. ISBN: 0717629821.

25. *An index of health and safety guidance in the catering industry. HSE Catering Information Sheet No 7* (adolygiad 1). Llyfrau HSE.

26. *The main health and safety law applicable to catering. HSE Catering Information Sheet No 11*. HSE http://www.hse.gov.uk/pubns/cais11.pdf.

27. *Avoiding ill health at open farms. HSE Agricultural Information Sheet 23* (adolygiad 1). Llyfrau HSE http://www.hse.gov.uk/pubns/ais23.pdf.

28. *Signpost to The Health and Safety (Safety Signs and Signals) Regulations 1996*, HSE http://www.hse.gov.uk/pubns/indg184.htm.

29. *Employers' Liability (Compulsory Insurance) Act 1969 A guide for employers*, HSE http://www.hse.gov.uk/pubns/hse40.pdf.

30. BS 6465 - 1:2006 - *Code of practice for the design of sanitary facilities and scales of provision of sanitary and associated appliances* **ISBN** 0 580 47917 X. British Standards Institute, 389 Chiswick High Road, London, W4 4AL. Rhif ffôn. 020 8996 7001.

31. Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. (2007). *Fire Safety Risk Assessment - Open Air Events and Venues.* ISBN: 9781851128235: http://www.communities.gov.uk/ documents/fire/pdf/158379
Canllawiau Asesiad Risg Diogelwch Tân - e.e. mannau ymgynnull bychain a chanolig. Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol - Canllaw 6 a Digwyddiadau Awyr Agored - Canllaw 9.

32. Brigâd Dân Canolbarth a Gorllewin Cymru – Taflen Wybodaeth Diogelwch Tân: FSIS/12. Rhagofalon Tân: Ar gyfer Pebyll a Phebyll Mawrion. **Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru,** Yr Adran Diogelwch Tân, Pencadlys Rheoli Ardal y Gorllewin, Rhiw Myrddin, HWLFFORDD, SA61 1PG. Rhif ffôn. 08706 060699.

33. Rheoli Digwyddiadau Mawr (Deddf Trwyddedu 2003) - *Managing Large Events (Licensing Act 2003) — A LACORS Guide* LACORS, Local Government House, Smith Square, Llundain SW1P 3HZ. Rhif ffôn. 020 7665 3888.

34. Iechyd a diogelwch mewn digwyddiadau cymunedol awyr agored,
Voluntary Arts, e-bost info@voluntaryarts.org.

35. *Guide to Managing Health & Safety at Exhibitions & Events. The Red Book Guide to new folk promoters. A jazz services publication.*

36. *The Good Practice Safety Guide for Small and Sporting Events taking place on the high way, roads and public places*. Y Swyddfa Gartref.

37. *The Institute of Leisure and Amenity Management (ILAM) - Events from start to finish*, ISBN 0954 2190 31.

38. *Organising Accessible Events*.Comisiwn Hawliau Anabledd.

39. *Guide to Safety at Sports Grounds (the 'Green Guide')*, Awdurdod Trwyddedu Pêl-droed, 2008, ISBN 978-0-11-702074-0 www.culture.gov.uk/images/publications/ GuidetoSafetvatSportsGrounds.pdf.

40. Diogelwch mewn digwyddiadau. Awdurdod y Diwydiant Diogelwch — *SIA Guidance on the Private Security Industry Act 2001.*

41. *Noise at Work in the Music and Entertainment Sectors — Guidance*: www.hse.gov.uk/noise/musicsound.htm, www.soundadvice.info

42 Pecyn trefnu Gwyliau a Digwyddiadau — Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru www.tpmw.love-media.co.uk/files/99.pdf.

43 *Tourism Network North East* — Pecyn Gwyliau a Digwyddiadau www.tourismnortheast.co.uk/pages/information-sheets.

44 Pecyn Gwyliau a Digwyddiadau Bwrdd Twristiaeth Cymru - www.timelineforevents.co.uk/.

45 Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd (CIEH) — *Draft National Guidance for Out-door and Mobile Catering, Consultation Document*, Mawrth 2009. **Error! Hyperlink reference not valid.**www.cieh.org/policy/guidance outdoor mobile catering.html?terms=outdoor+catering.

46 Cyhoeddiad Sefydliad y Peirianwyr Adeileddol *Temporary Demountable Structures - Guid-ance on procurement, design and use*. (Trydydd Argraffiad) (2007)).

47 MUTA- *Marque Accreditations Scheme and Best Practice Guide 2008*: http:// www.mutamarq.org.uk.

48 Sefydliad Safonau Prydeinig. (2004). *Guide to industry best practice for organizing outdoor events.* PAS 51:2004. ISBN: 0580433196.

49 Sefydliad Safonau Prydeinig (2003). *Event stewarding and crowd safety services. Code of practice* B8406@2003. ISBN: 0580427633.

## 5. FFYNONELLAU AM RAGOR O WYBODAETH AC ARWEINIAD

Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru
Pencadlys y Gwasanaeth
Heol Llwyn Pisgwydd
Caerfyrddin
SA31 1SP
Rhif ffôn: 0370 6060699
E-bost: mail@mawwfire.gov.uk

**Ymddiriedolaeth GIG**
**Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**
Ysbyty H.M.Stanley
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 ORS
Rhif ffôn 01745 532900
www.welshambulance.nhs.uk

**Llinell wybodaeth HSE**
Y Llinell Wybodaeth yw'r ganolfan gyswllt ar gyfer ymholiadau gan y cyhoedd i HSE. Mae'r llinell wybodaeth yn darparu mynediad at wybodaeth am iechyd a diogelwch yn y gweithle, canllawiau a chyngor arbenigol.
Rhif ffôn 0845 345 0055

**Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), Adeiladau'r Llywodraeth, Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd, CF14 5SH**
Rhif ffôn 029 2026 3000
e-bost: hseinformationservices@natbrit.com

**Llyfrau HSE Books, PO Box 1999, SUDBURY,**
**Suffolk, C010 6FS.** Rhif ffôn 01787 881165
www.hsebooks.co.uk

**RoSPA, Edgbaston Park, 353 Bristol Road, Edgbaston, BIRMINGHAM, B5 7ST.**
Rhif ffôn 0121 2482000 e-bost: help@rospa.co.uk

**National Inspection Council for Electrical Installation Contracting**
**(NICEIC) Vintage House, 37 Albert Embankment, London, SE1 7UJ.**
Rhif ffôn 020 7564 2323
e-bost: enquiriesniceic.org.uk

**Cymdeithas y Contractwyr Trydanol (ECA) 8 Earlswood Road, Parc Busnes Caerdydd, Llanisien, Caerdydd, CF14 5GH**
Rhif ffôn 029 2074 7103
www.eca.co.uk

**NAPIT (National Association of Professional Inspectors and Testers)**
**Head Office: 4th Floor, Mill 3, Pleasley Vale Business Park, Mansfield, Nottinghamshire, NG19 8RL.**

**E-bost:** infonapit.org.uk

Gwefan:
**www.napit.org.uk**

**Rhif ffôn:** 0870 4441392
**Ffacs:** 0870 4441427

**UKLPG** yw'r gymdeithas fasnachol ar gyfer diwydiant nwy petrolewm hylifol yn y DU, sy'n cynrychioli cwmnïau sy'n cynhyrchu, dosbarthu, darparu offer a gwasanaeth, a thrawsnewid cerbydau. Ffurfiwyd UKLPG drwy uno'r *LPG Association* (LPGA) a'r *Association for Liquid Gas Equipment and Distributors* (ALGED) ym mis Ionawr 2008.

E-bostiwch ymholiadau i: mailuklpg.org
Mae cyhoeddiadau ar ddiogelwch a thaflenni cyngor ar gael o'u gwefan: www.uklpg.org

**Security Industry Authority (SIA) PO Box 1293, Lerpwl, L69 1AX**
Rhif ffôn 0844 892 1025
www.the-sia.org.uk

**Gas Safe Register, PO Box 6804, Basingstoke, RG24 4NB** Rhif ffôn 0800 408 5500
www.gassaferegister.co.uk

**Hybu Gwaith Cymru**
Mae Hybu Gwaith Cymru yn wasanaeth a ariennir gan y llywodraeth sy'n darparu cyngor cyfrinachol ac ymarferol am ddim i fusnesau bach yng Nghymru ar faterion iechyd a diogelwch yn y gweithle, rheoli absenoldeb oherwydd salwch a materion dychwelyd i'r gwaith.
**Rhif ffôn: 0845 609 6006**
www.workboostwales.com

**Dwr Cymru**
E-bost: Water Services Enquiry
FFon: **0800 052 0130** (24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos)

## 6 CYDNABYDDIAETH

Mae'r ddogfen hon wedi'u pharatoi'n garedig gan awdurdodau Gogledd Cymru sy'n ffurfio rhan o'r grŵp tasg Iechyd a Diogelwch ar gyfer yr ardal honno. Mae'r awdurdodau hyn hefyd yn cydnabod y gwaith a wnaed gan Adran Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir Penfro wrth ddechrau datblygu'r canllaw.

## 7 ENGHRAIFFT SYLFAENOL – RHESTR WIRIO CYN AC YN YSTOD Y DIGWYDDIAD

### Penodwch bobl i wirio’r materion hyn a mynd i’r afael â hwy neu adrodd yn ôl

| | Sylwadau |
|---|---|
| **DIOGELWCH Y LLEOLIAD/ SAFLE** | |
| A yw’r safleoedd yn rhydd rhag peryglon?<br>(h.y. wyneb y ddaear/ llawr yn wastad; dim peryglon baglu) | |
| A yw pob atyniad/ gweithgaredd/ adeiledd wedi’u cwblhau, eu gwirio a’u staffio? | |
| A yw adeileddau/ seddi yn gadarn a diogel; grisiau/ llwyfannau ac offer wedi’u diogelu; rhwystrau/ ffensys amddiffyn yn gadarn a ddim yn achosi perygl? | |
| **MYNEDFEYDD/ ALLANFEYDD** | |
| A oes digon o fynedfeydd ac allanfeydd ar agor, gydag arwyddion clir ac wedi’u staffio er mwyn rheoli mynediad lle bydd angen? | |
| A yw pob ardal gylchdroi, grisiau/ llwybr dianc/ allanfa yn glir a heb rwystrau gyda phob clwyd/ drws heb eu cloi? | |
| **RHEOLI TYRFA** | |
| A yw’r ystafell yn weithredol, gyda’r systemau cyfathrebu a chyhoeddi yn gweithio? | |
| A yw’r nifer gofynnol o stiwardiaid yn eu lleoliadau penodol; wedi derbyn cyfarwyddiadau llawn ynglŷn â’u dyletswyddau ac yn gwisgo siacedi/ tabardau? | |
| **TRYDAN** | |
| A yw’r gosodiadau wedi’u cwblhau/ eu gwirio/ eu profi/ eu hardystio (yn ôl yr angen gan unigolyn cymwys); y ceblau/ offer wedi’u gwirio gan unigolyn cymwys, yn ddiogel/ wedi’u diogelu ac wedi’u cadw draw o’r mannau lle mae’r cyhoedd yn cylchdroi? | |
| **GOLEUADAU** | |
| A ddarperir goleuadau arferol a goleuadau mewn argyfwng, yn gweithio’n iawn ac wedi’u cynnau lle bod angen? | |
| **CYFLEUSTERAU MEDDYGOL** | |
| A oes darparwyr cymorth cyntaf sydd wedi’u hyfforddi’n ddigonol ar y safle; a oes ystafell sydd ag arwyddion amlwg arni ar gael (gyda chyflenwad dŵr) i fod yn orsaf cymorth cyntaf? | |
| **RHAGOFALON TÂN** | |
| A yw’r offer ymladd tân yn eu lle; a sbwriel/defnyddiau hylosg wedi’u cadw draw oddi wrth y pebyll/adeileddau? A roddwyd cyfarwyddyd i’r stiwardiaid/ staff? | |
| **TOILEDAU** | |
| A oes lle ar gael ar gyfer toiled sydd ag arwyddion amlwg arno(gan gynnwys rhai ar gyfer yr anabl); a oes trefniadau wedi’u gwneud i’w cynnal a’u cadw trwy gydol y digwyddiad? | |
| **SBWRIEL** | |

| A oes digon o finiau wedi'u darparu o gwmpas y safle a threfniadau wedi'u gwneud i'w gwagio yn ystod y digwyddiad? | |
|---|---|

## 8. PATRYMLUN O'R ASESIAD RISG

| Pwy allai gael ei niweidio a sut? | Beth ydych chi eisoes yn ei wneud? | Pa gamau pellach sydd angen eu cymryd? | Gweithredir gan bwy? | Gweithredir erbyn pryd? | Wedi ei gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Beth yw'r peryglon? | | | | | |

**9. MANYLION CYSWLLT AWDURDODAU GORFODI GORLLEWIN CYMRU — IECHYD A DIOGELWCH**

Nid yw'r canllaw hwn yn hollol gyflawn ac nid yw'n bosibl iddo ymdrin â phob amgylchiad. Os bydd angen rhagor o gyngor arnoch ynglŷn â'r materion yn y canllaw hwn neu unrhyw fater perthnasol arall, cysylltwch â:

Cyngor Sir Ceredigion
Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai
Penmorfa
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0PA
Rhif ffôn: 01545 572105
E-bost: envhealth@ceredigion.gov.uk

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch Rhanbarthol - Gorllewin Cymru
Tŷ Myrddin,
Old Station Road,
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin. SA31 1LP
Rhif ffôn: **0845 345 0055.**

Ffacs: 01267 223267

Gwefan: www.hse.gov.uk

Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru
Pencadlys y Gwasanaeth
Heol Llwyn Pisgwydd
Caerfyrddin
SA31 1SP
Rhif ffôn: 0370 6060699
E-bost: mail@mawwfire.gov.uk